Rhifyn 2, Gorffennaf 2024

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# yr Athro

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

# Cynhadledd Flynyddol UCAC 2024

## 21 Mehefin - Gwesty'r Marine, Aberystwyth



*Y cynadleddwyr yn mwynhau ychydig o awel y môr*

Cafwyd patrwm gwahanol i Gynhadledd UCAC 2024. Yn hytrach na'r deuddydd traddodiadol, Cynhadledd undydd fu hi eleni, gyda'r cynadleddwyr yn treulio dydd Gwener 21 Mehefin yn ystyried prif faterion y byd addysg yng Nghymru, gan drafod cynigion, dod i benderfyniad ac urddo swyddogion newydd yr Undeb am y flwyddyn 2024-2025. Roedd yr amserlen yn un llawn, y trafod yn frwd ac roedd hi'n fuddiol cael cyfle i dreulio'r diwrnod yn canolbwyntio ar faterion sydd o'r pwys mwyaf i'r gweithlu addysg yng Nghymru. Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol, braf hefyd oedd cael cyfle i gymdeithasu a rhannu profiadau gyda ffrindiau hen a newydd.




*Cyrraedd, cofrestru a chwilio am sedd!*

Ffôn 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru | AthrawonCymru

# Cynnig, Trafod a Phenderfynu



*Cynnig*



*Trafod – Wedi gwrando ar y cynnig, cyfle i drafod a chynnig gwelliant a gwelliant ar y gwelliant os oes angen!*

Beth sydd ar frig yr agenda addysg ar hyn o bryd? Diffyg cyllid, llwyth gwaith, newidiadau dirifedi i'r system addysg, problemau ymddygiad a disgyblaeth yn ein hysgolion. Roedd y themâu hyn i gyd, ynghyd â materion eraill yn destunau cynigion yn y Gynhadledd. Cafwyd cyfanswm o 21 cynnig (19 cynnig a 2 gynnig brys) ac wedi trafodaeth fywiog a rhai gwelliannau i gynigion, pasiwyd y cynigion i gyd.

Er mwyn gweld rhestr lawn o'r cynigion, dilynwch y ddolen isod: https://www.ucac.cymru/images/PENDERFYNIADAU2024/PENDERFYNIADAU_CYNHADLEDD_2024.pdf


## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Geraint Phillips

**Is-Lywydd:** Ceri Dafydd Evans

**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones

**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies

**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC. Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.


## EICH AELODAETH

**Cofiwch ddiweddaru eich manylion!**

- Manylion cyswllt
- Cyfeiriad cartref
- Lleoliad gwaith
- Categori aelodaeth (dyddiau gwaith)

Mewngofnodwch i'ch cyfrif www.ucac.cymru neu cysylltwch â'r swyddfa.

Mae'n rhaid cysylltu â'r Brif Swyddfa er mwyn newid eich categori aelodaeth: aelodaeth@ucac.cymru / 01970 639950.

*Ni fydd UCAC yn cynnig ad-daliad os nad ydych wedi ein hysbysu o'r newid angenrheidiol o flaen llaw.*



# Penderfynu

**Diffinio Aelod**
Un o benderfyniadau cyntaf y Gynhadledd oedd newid y diffiniad o aelod. Gwnaed hyn fel cydnabyddiaeth o'r ffaith fod sefydliadau addysg wedi newid dros y blynyddoedd a bod nifer o rolau newydd yn bodoli mewn ysgolion. Mae nifer o fewn yr Undeb wedi bod yn awyddus i sicrhau bod ystod ehangach o'r gweithlu addysg yn cael cyfle i gael cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi trafodaeth frwd, penderfynwyd diffinio aelod fel a ganlyn:
**'personau a gyflogir fel addysgwyr, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch'**

**Deallusrwydd Artiffisial**
Maes sy'n datblygu ar garlam gwyllt yw maes Deallusrwydd Artiffisial ac mae'r datblygiad hwn yn cynnwys oblygiadau pellgyrhaeddol i'r sector addysg, cyfleoedd, manteision a bygythiadau. Cafwyd esiamplau o gamddefnyddio'r dechnoleg a'r anawsterau sy'n wynebu'r sawl sy'n gorfod penderfynu ai gwaith unigolyn yw'r gwaith dan sylw. Wedi rhannu profiadau o'r maes, y farn oedd bod angen canllawiau cadarn ar staff a dysgwyr sut i ddefnyddio'r dechnoleg newydd mewn ffordd dderbyniol.

**Ymddygiad disgyblion**
Mynegwyd pryder gan athrawon yn y sector cynradd a'r sector uwchradd am y modd y mae ymddygiad ac agwedd rhieni a disgyblion wedi newid wedi'r pandemig. Mae hwn yn fater sy'n destun pryder gwirioneddol i'r Undeb ac yn fater y byddwn yn ei drafod gyda'r Llywodraeth. Rhaid gwneud rhywbeth yn ddiymdroi er mwyn cadw athrawon yn y proffesiwn ac er mwyn recriwtio aelodau newydd i fyd addysg.

**Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru**
Cafwyd tri chynnig yn ymwneud â'r cymwysterau newydd. Roedd un yn ymwneud â diffyg adnoddau a phrinder hyfforddiant cyn i athrawon orfod addysgu'r cyrsiau newydd. Oherwydd profiadau negyddol yn y gorffennol, roedd gofid ynghylch adnoddau Cymraeg. Mae addewid wedi ei roi y bydd adnoddau Cymraeg a Saesneg ar gael yr un pryd a mawr obeithiwn y bydd hynny'n digwydd. Roedd y trydydd cynnig yn mynegi pryder fod y cymwysterau'n cael eu cyflwyno mewn dwy don ac roedd galwad am oedi a chyflwyno'r pynciau i gyd ar yr un adeg.

## Tâl Aelodaeth UCAC 2024-25

Yn wyneb costau cynyddol, penderfynodd y Cyngor Cenedlaethol yn ddiweddar y bydd yn rhaid codi tâl aelodaeth UCAC. Nid oedd hwn yn benderfyniad hawdd, ond mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith fod tâl aelodaeth UCAC yn parhau'n gystadleuol mewn cymhariaeth ag undebau eraill. Nid oes gan UCAC danysgrifiadau 'lleol' ychwanegol, fel sydd gan rai undebau eraill. Cofiwch fod UCAC yn cynnig gwasanaeth personol a chyflym ac mai UCAC yw'r unig undeb sy'n cynnig ei holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**O 1 Medi 2024 bydd y tâl aelodaeth fel a ganlyn:**

| Categori aelodaeth | Tâl misol |
|---|---|
| Llawn Amser (5 diwrnod) | £18.78 (£225.36 y flwyddyn) |
| 0.7-0.99 (3½ - 4½ diwrnod) | £15.74 (£188.88 y flwyddyn) |
| 0.4-0.69 (2 – 3 diwrnod) | £13.02 (£156.24 y flwyddyn) |
| 0.3 neu lai (1½ diwrnod neu lai) | £10.50 (£126 y flwyddyn) |
| Cyfaill | £2.21 (£26.52 y flwyddyn) |
| Newydd Gymhwyso | Am ddim |
| Dan Hyfforddiant | Am ddim |

# Urddo Swyddogion

## Llywydd
# Ceri Dafydd Evans

Yn ystod prynhawn dydd Gwener, urddwyd Ceri Dafydd Evans yn Llywydd yr Undeb am y flwyddyn 2024-25. Athro Gwyddoniaeth yn Ysgol y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin yw Ceri. Mae'n hanu o bentref Bethlehem, Sir Gaerfyrddin. Cafodd ei addysg gynradd yn ysgol y pentref, a derbyniodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Maes yr Yrfa, Cefneithin. Graddiodd mewn Geneteg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac wedi tair blynedd yn gweithio i'r Llywodraeth, dychwelodd i Brifysgol Aberystwyth i gwblhau cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion.

Yn ei araith gychwynnol, soniodd Ceri am ddylanwad amryw unigolion arno. Cyfeiriodd at y ffaith fod ei ymrwymiad i undebaeth yn dilyn traddodiad teuluol, gan i'w hen-daid fod yn amlwg ym myd undebaeth pan oedd yn gweithio yn y banc yn Lerpwl. Rhoddodd Ceri grynodeb o'i yrfa hyd yma, a'r cysylltiad rhwng ei yrfa ac unigolion eraill a fu ac sydd yn amlwg yn yr Undeb.






Nododd mai ei weledigaeth yw lleihau llwyth gwaith athrawon a chroesawodd y cyfle y mae wedi ei gael i fod yn rhan o banel sydd newydd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i edrych yn fanylach ar lwyth gwaith athrawon. Yn ei farn ef, y cwestiwn y dylid ei holi wrth wynebu tasg yw 'A yw'r dysgwyr yn elwa?'. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig cofio nad 'ystadegau' yw dysgwyr ond unigolion. Teimla fod llawer o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan athrawon ar hyn o bryd yn ddiflas, yn ddibwrpas ac yn ddibendraw.

Er iddo weld y cwricwlwm newydd yn chwa o awyr iach, teimla fod y byd addysg wedi cymryd rhai camau tuag yn ôl yn ddiweddar, wrth weithredu a gweinyddu'r cwricwlwm newydd. Ei neges oedd fod angen sicrhau bod y cwricwlwm yn creu disgyblion hyderus sy'n llwyddo yn eu ffordd unigryw eu hunain.

Is-Lywydd

# Sara Edwards



Yn dilyn ei urddo'n Llywydd, rhoddwyd y gorchwyl pleserus i Ceri o urddo'r is-lywydd ar gyfer 2024-25, sef Sara Edwards.

Un o Lanfair pwll, Ynys Môn yw Sara yn wreiddiol, ond mae hi bellach wedi ymgartrefu yn Nantlle, ger Caernarfon gyda'i gŵr Aled, a'u mab Rhys. Cafodd ei swydd gyntaf fel athrawes Wyddoniaeth yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, lle bu'n Ddirprwy Arweinydd CA4 ac yn Bennaeth Bioleg cyn derbyn swydd yn Ysgol Ardudwy, Harlech fel Pennaeth Gwyddoniaeth a Chydlynydd y Fagloriaeth. O dan arweiniad Mr Tudur Williams, cafodd gyfle, yn Ysgol Ardudwy, i fod yn Uwch Athrawes gyda chyfrifoldeb dros Gyfnod Allweddol 4. Ers mis Ionawr 2023, mae'n Bennaeth Gwyddoniaeth yn Ysgol y Moelwyn. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Llifon.

## Dod i Adnabod yr Is-Lywydd yn Well

**Enw**: Sara Edwards

**Ysgol**: Y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog

**Pynciau rydych yn eu dysgu neu gyfrifoldebau o fewn yr ysgol:** Pennaeth Gwyddoniaeth ac yn dysgu Cemeg (er yn fiolegydd yn wreiddiol)

**Hoff ddiddordebau**: Teithio, coginio, darllen, siopa

**Hoff le yng Nghymru a pham**: Ynys Llanddwyn, Sir Fôn - mochyn Môn ydw i er fy mod i bellach wedi symud oddi ar yr Ynys. Mae cael eich geni a'ch magu ar yr Ynys yn golygu ei bod yn rhan ohonoch am byth - y bobl, yr hanes, y golygfeydd, does dim i'w gymharu â Môn Mam Cymru.

**Hoff bryd bwyd**: Cinio Nadolig neu Tapas - yn ddibynnol ar y tywydd!

**Byw neu farw: â phwy yr hoffech chi gyfarfod i gael sgwrs dros baned**? Sir David Attenborough.

**Y perfformiad gorau i chi ei weld neu'r llyfr gorau i chi ei ddarllen?** Ar wyliau diweddar mi wnes i ddarllen cyfres o lyfrau gan yr awdures Heather Morris, 'The Tattooist of Auschwitz', 'Cilka's Journey' a 'Three Sisters'. Llyfrau emosiynol iawn sydd wedi'u hysgrifennu fel nofelau annibynnol ond hefyd yn plethu i'w gilydd ac yn trafod cariad a gwydnwch mewn cyfnod tywyll iawn, sef yr holocost.

**Os oes un peth yr hoffech chi ei newid am y system addysg yng Nghymru, beth fyddai hwnnw?** Lleihau baich gwaith athrawon. Byddai cynyddu amser digyswllt athrawon yn caniatáu i athrawon fod yn athrawon a gwneud mwy o'r hyn sydd wedi denu pob un ohonom i'r proffesiwn yn y lle cyntaf. Byddai lleihau baich gwaith athrawon yn gwella iechyd meddwl ein gweithlu ac o ganlyniad yn cynyddu'r nifer o athrawon profiadol sy'n aros yn y proffesiwn ac yn ei dro yn sicrhau bod llu o brofiad yn aros yn nosbarthiadau Cymru yn ogystal â denu athrawon newydd i'r proffesiwn.

**Pam rydych chi'n hapus i fod yn is-lywydd UCAC?**

Mae'n fraint cael derbyn y cyfrifoldeb hwn a chyda dau wyddonydd ar y tîm llywyddol eleni dwi'n rhagfynegi y byddwn yn arsylwi a dadansoddi pob mater a ddaw ger bron er mwyn cyrraedd y casgliad mwyaf addawol i addysgwyr Cymru.




## Araith yr

# Ysgrifennydd Cyffredinol

**Isod ceir rhan o anerchiad Ioan Rhys Jones. Er mwyn darllen yr anerchiad yn llawn, ewch i https://www.ucac.cymru/index.php/cy/newyddion/524-anerchiad-yr-ysgrifennydd-cyffredinol-yng-nghynhadledd-ucac**

Yn y lle cyntaf, carwn ddiolch o galon i chi am eich presenoldeb yma heddiw. Mae'r trafodaethau wedi bod o'r safon uchaf eleni, ac rwy'n falch iawn o gael bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol ar undeb sydd yn cael ei gynrychioli mor effeithiol gennych chi.

Fel y llynedd, mae'n bwysig nodi ein bod wedi colli sawl un sydd wedi bod yn weithgar dros yr Undeb yn y flwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei fod yn deg i mi nodi ein bod wedi colli un fu'n ddylanwadol iawn ar waith yr Undeb o 1978 ymlaen yn ystod y flwyddyn, sef Gareth Miles. Bu'n Drefnydd ar UCAC, rôl oedd yn debyg iawn i fy un i yn ystod y cyfnod yna. Bydd nifer ohonoch yn cofio Gareth Miles fel ffigwr blaenllaw yn genedlaethol, yn enwedig gyda Chymdeithas Yr Iaith. Fe fu'n ddylanwadol iawn gyda TUC Cymru, yn ystod, ac wedi'r cyfnod y bu'n gweithio gyda UCAC yn ogystal.

Yn amlwg, mae Llwyth Gwaith yn parhau'n bwnc sydd yn haeddu sylw. Er tegwch, mae'r Llywodraeth wedi cynnull rhanddeiliaid i sawl gweithgor. Yn anffodus, prin fydd effaith yr hyn sydd wedi ei drafod ar athrawon llawr dosbarth hyd y gwelwn, er bod peth symud ymlaen wedi bod. Byddwn yn parhau â'r frwydr, wrth gwrs, gan ofyn am fodel tebyg i'r Alban, model fyddai'n gofyn am gytundeb o ran yr oriau a weithir mewn blwyddyn a sicrwydd o ran oriau gwaith.

Nid yw pethau'n argoeli'n dda o ran Cyflog ac Amodau eleni a hyn yn rhannol gan fod oedi pellach o ran cyflwyno Adroddiad CACAC ac ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet eleni, ac nad ydym yn disgwyl gweld ymgynghoriad tan ganol mis Gorffennaf, ond hefyd oherwydd modelu'r Llywodraeth o ran codiadau 1,2 neu 3% i gyflog. Yn ogystal, roedd ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet i'r Adolygiad Strategol a wnaed gan CACAC yn siomedig iawn. Er y derbyniwyd yr argymhellion, nodwyd yn glir y byddai angen i unrhyw newid fod yn gost niwtral. Gallaf eich sicrhau bod UCAC wedi treulio oriau yn ymateb tair gwaith i'r Adolygiad Blynyddol ac i'r Adroddiad Strategol, ac eto, prin yr ydym yn symud ymlaen. Efallai fod angen i ni ystyried galw am gyd-fargeinio, yn hytrach na'r gweithdrefnau hir wyntog fel sydd gennym. Beth bynnag, byddwn yn ymgynghori gyda chi'r aelodau ar gynigion yr Ysgrifennydd Cabinet – pan y dônt.

Mae'n bwysig hefyd fy mod yn rhoi sylw i faes arall sydd wedi bod yn destun trafod aelodau a swyddogion ers sawl blwyddyn bellach, ond sydd wedi dod i'r amlwg mewn ffordd gwbl anffodus eleni yn Rhydaman. Yn anffodus, ni allwn nodi mai rhywbeth gwbl unigryw oedd y trais yn erbyn athrawon yn Ysgol Dyffryn Aman, ond yn sicr, mae clywed am ddigwyddiad o'r fath, mewn ysgol a sir lle bo gennym cynifer o aelodau yn destun braw a dychryn, ac roedd siŵr o daro Teulu UCAC yn genedlaethol. Mae unrhyw fath o drais yn gwbl annerbyniol. Mae angen gwarchod ysgolion, disgyblion ac athrawon. Rydym fel undeb wedi codi ymddygiad a thrais yn gyson yn ein cyfarfodydd sirol a chenedlaethol – ond mae bellach yn amser i ni gael sgwrs genedlaethol ar y mater. Nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn awyddus i gynnal Uwch-gynhadledd ar y mater, ei hymateb wrth i ni gwrdd gwrdd â hi a codi pryder oedd bod 'Toolkit' ar ei ffordd i ddiwallu'r anghenion! Mae'n debygol bod y Llywodraeth yn gweld bod angen gweithredu ymhellach na hynny erbyn hyn!

Mae nifer o bethau eraill sydd yn bwysig iawn i ni, ac yn destun gweithredu, gan gynnwys y Bil Addysg Gymraeg newydd, y Cwricwlwm, cymwysterau a llwyth gwaith a diffygion y gyfundrefn ADY. Byddwn yn parhau i godi'r hyn sydd yn bwysig i aelodau UCAC yn ein trafodaethau.

Mewn undeb mae nerth!

---



Ar ddiwedd mis Awst, bydd tymor ein Llywydd presennol yn dod i ben. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Geraint Phillips Llywydd 2023-24 am ei gefnogaeth a'i gymorth cyson ar hyd y flwyddyn.

Er gwaethaf yr her o orfod parhau i weithio'n llawn amser a gweithredu fel Llywydd yr Undeb, gwnaeth Geraint gyfraniad pwysig i waith yr Undeb yn ystod ei lywyddiaeth.

## Croesawu a Ffarwelio

Croeso nôl i Gwenno, Swyddog Aelodaeth a Recriwtio ar ôl bod ar gyfnod mamolaeth. Wrth groesawu Gwenno, rydym yn ffarwelio â Céire ac yn diolch iddi am ei gwaith yn ystod cyfnod mamolaeth Gwenno.

Croeso nôl hefyd i Siân fel Swyddog Cyllid, wrth i ni ffarwelio â Ffion. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith Ffion yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd. Nid yw Siân yn ddieithr i'r gwaith, gan iddi weithio fel Swyddog Cyllid UCAC yn ystod cyfnod mamolaeth Ffion yn ystod 2023-2024.

## Ymweliad Cyntaf â Chynhadledd UCAC – Profiad Athro dan Hyfforddiant

# Saran Jones



Roedd mynychu fy nghynhadledd gyntaf gydag Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru UCAC yn brofiad hynod gyfoethog a gyfrannodd yn sylweddol at fy natblygiad fel athro dan hyfforddiant. Rhoddodd y gynhadledd hon ddealltwriaeth ddyfnach i mi o'r heriau a'r cyfleoedd amlochrog o fewn y proffesiwn addysgu, gan gynnig trosolwg cynhwysfawr a fydd, heb os nac oni bai, yn dylanwadu ar fy nealltwriaeth o ofynion y swydd wrth imi ddechrau fy ngyrfa.

Un o'r agweddau mwyaf buddiol ar fynychu cynhadledd UCAC oedd dod i gysylltiad â materion cyfoes a dadleuon yn ymwneud ag addysg yng Nghymru. Cefais gyfle i ymgysylltu ag addysgwyr profiadol, cynrychiolwyr undebau, a llunwyr polisi a rannodd eu mewnwelediad ar bynciau oedd yn amrywio o ddiwygio'r cwricwlwm i rannu gofidiau manylion newydd TGAU a oedd yn gysylltiedig â llwyth marcio. Roedd y trafodaethau hyn yn tynnu sylw at gymhlethdodau polisïau addysgol a'r goblygiadau ymarferol i athrawon yn y dosbarth. Mae medru cael mewnbwn a deall y materion hyn yn holl bwysig i bobl ifanc sydd am ddechrau yn yr yrfa hon.

Roedd rhwydweithio yn fantais sylweddol arall o fynychu cynhadledd UCAC. Roedd cysylltu â chyd-athrawon, addysgwyr profiadol, ac aelodau undeb yn meithrin ymdeimlad o gymuned a chefnogaeth. Wrth rannu profiadau a heriau gydag eraill, agorwyd fy llygaid i'r ffaith nad wyf ar fy mhen fy hun ar y daith hon, ac mae eraill yn rhannu'r un gofidion a theimladau. Cefais y fraint hefyd o gael cyngor gan athrawon profiadol sydd wedi fy helpu i deimlo'n fwy hyderus a pharod ar gyfer fy mlwyddyn gyntaf yn yr ystafell ddosbarth.

Ymhellach, roedd cymryd rhan mewn trafodaethau am rôl undebau wrth eiriol dros hawliau athrawon a gwella safonau addysgol yn agoriad llygad. Roedd dysgu am ymdrechion yr undeb i sicrhau amodau gwaith gwell, cyflog teg, a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i athrawon yn tanlinellu pwysigrwydd bod yn aelod gweithgar o'r gymuned addysgu. Mae'r wybodaeth hon wedi fy ngrymuso i gymryd mwy o ran mewn ymdrechion eiriolaeth, gan sicrhau fy mod yn cyfrannu at y llais cyfunol gan ymdrechu am newid cadarnhaol yn y sector addysg.

Roedd bod yn rhan o gynhadledd flynyddol UCAC yn hynod fuddiol er mwyn fy atgoffa pa mor bwysig yw lleisio a gwrando ar yr hyn sy'n digwydd yn y byd addysgu. Mae'n hanfodol i athrawon boed yn brofiadol tu hwnt neu dim ond yn dechrau ar eu gyrfa i gymryd rhan weithredol yn y prosesau a'r penderfyniadau sydd yn llywio ein proffesiwn a'n dyfodol. Trwy aros yn wybodus, gall athrawon ddadlau dros newidiadau a fydd yn gwella safonau addysgol. Mae gan bob un person addysgol rôl i'w chwarae yn y trafodaethau hyn, er mwyn sicrhau bod lleisiau'r rhai sydd yn arwain addysg yn gyrru'r datblygiadau yma er budd pawb.

Am yr erthygl yn llawn, ewch i https://www.ucac.cymru/index.php/cy/newyddion/525-ymweliad-cyntaf-a-r-gynhadledd






# Galw am Ymddiriedolwyr

Mae UCAC yn cynrychioli athrawon, arweinwyr a darlithwyr ym mhob cwr o Gymru.

Rydym yn awyddus i benodi ymddiriedolwyr newydd i gyfrannu at lywodraethiant yr Undeb. Mae croeso i unrhyw aelod neu gyn-aelod fynegi diddordeb, a'r Cyngor Cenedlaethol fydd yn penodi'n derfynol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am y rôl a manylion pellach sut i fynegi diddordeb, dilynwch y ddolen isod:

https://www.ucac.cymru/index.php/cy/newyddion/527-galwad-am-ymddiriedolwyr

# Oedi Di-angen

Siom fawr i UCAC oedd penderfyniad Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru i oedi rhyddhau'r ymgynghoriad ar Adroddiad CACAC (Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru). Mewn cyfarfod brys o'r Cyngor Cenedlaethol, nodwyd bod y penderfyniad yn un cwbl annerbyniol ym marn aelodau'r Cyngor.

Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi datgan y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ddydd Gwener, Gorffennaf 12fed, 2024, ond ni wnaed hynny. Mae'n anodd iawn credu bod unrhyw reswm dilys dros yr oedi, a theimlir bod yr oedi'n tanseilio holl waith y Corff Annibynnol a'r rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu at y broses, proses sydd yn weithredol yng Nghymru ers Medi 2018.

Er i'r Ysgrifennydd Cabinet, Lynne Neagle, dderbyn yr adroddiad ers wythnosau, yn anffodus, penderfynodd eistedd ar yr Adroddiad. Teimlai'r Cyngor Cenedlaethol fod penderfyniad yr Ysgrifennydd Cabinet yn dirmygu athrawon Cymru gan ei fod yn amlwg bod sicrhau cyflog ac amodau teg i athrawon yn eilradd i ystyriaethau gwleidyddol yn hyn o beth. Mae'n ddirmyg hefyd ar ein Senedd a'i waith, ac yn wir, yn tanseilio hygrededd y Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd.

Os nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn fodlon cyhoeddi'r ymgynghoriad ar fyrder byddwn yn mynd ati i ymgynghori gydag aelodau dros yr wythnosau nesaf fel cam cyntaf tuag at weithredu diwydiannol posibl.